

Tro trwy'r grug a'r caerau

Fiona Gale, archeolegydd y sir gyda Chyngor Sir Dinbych, yn arwain
taith hanesyddol trwy Fryniau Clwyd





Cloddiau amddiffynnol grugog bryngaer Moel Arthur gyda Phenycloddiau yn y pellter

Mae golygfa wych o gopa Penycloddiau, un o Fryniau Clwyd, yng ngogledd Cymru. O'ch amgylch mae cloddiau amddiffynnol un o'r bryngaerau mwyaf o Oes yr Haearn yng Nghymru. Tua'r gorllewin, mae'r ddaear yn cwmpo'n gyflym i feysydd ffwythlon Dyffryn Clwyd gyda thref Dinbych yn glir 5 milltir (3 km) i ffwrdd. Yn y cyfeiriad arall, mae Sir y Fflint ac aber afon Dyfrdwy. Tua'r gogledd-orllewin, mae'r bryniau'n tonni'n ysgafn i lawr tuag at Brestatyn a Môr Iwerddon tu hwnt. Tua'r de-ddwyrain, mae'r rhes bryniau'n codi i'w man uchaf ym Moel Famau (1,818 troedfedd/554m) — gyda Thŵr y Jiwbilf o'r ddeunawfed ganrif ar ei brig — cyn syrthio i geunant Bwlch Nant y Garth sy'n gwahanu Bryniau Clwyd oddi wrth Fynyddoedd Llantysilio tua'r de.

Rhostir grugog sydd tros y tir uchel ac, yn niwedd yr haf, bydd yn troi'n borffor gwyth. Mae'r rhostir yn gynefin pwysig i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys y rugiar ddu a hebog yr ieir, sydd ill dau dan fgythyad. Ac yntau'n ddi-bobl a phrin wedi'i gyffwrdd am ganifoedd gan lawer mwy na phori defaid, mae'r rhostir uchel hefyd yn cynnal safleoedd archeolegol o bwys, gan gynnwys claddfeydd o Oes yr Efydd ac, yn fwyaf trawiadol, fryngaerau o Oes yr Haearn.

Cafodd cymeriad arbennig y dirwedd hon ei gydnabod yn 1985 gyda chreu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd ac, ers hynny, mae mwy a mwy o bobl

wedi dod i fwynhau harddwch rhostiroedd mynyddig Bryniau Clwyd a Mynyddoedd Llantysilio. Er bod hyn yn destun dathlu, mae'r llif ymwelwyr weithiau wedi arwain at ddifrodi cynefinoedd ac erydu ar amgylchedd y rhostir. Gall ddefaid wneud y difrod yn waeth ac, weithiau, achosi difrod newydd.

Yr angen i reoli mynediad a defnydd yr ucheldiroedd grugog a'r ddwy res o fryniau, gan hyrwyddo cadwraeth a hamdden yr un pryd, a arweiniodd at ffurfio Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Grug a'r Caerau yn 2007. Er eu bod yn parhau i gael eu ffermio ac er eu bod yn cynnig mwynder i filiynau o bobl sy'n byw o fewn cyrraedd iddyn nhw, mae'r rhostiroedd o fewn y cynllun yn cynnwys cynefinoedd grugog mor werthfawr fel eu bod wedi'u gwarchod o fewn Ardal Gadwraeth Arbennig.

Mae ardal y cynllun hefyd yn cynnwys chwe bryngaer Oes Haearn o bwys cenedlaethol — Penycloddiau; Moel Arthur; Moel y Gaer, Llanbedr; Moel Fenlli; Moel y Gaer, Llantysilio, a Chaer Drewyn — ac mae gwaith archeolegol wedi bod ymhlith uchafbwyntiau cynlluniau'r Grug a'r Caerau yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Gwnaed gwaith mawr i drwsio effaith erydu ar Foel Arthur a Moel Enlli ym Mryniau Clwyd tra bod gwaith wedi'i wneud ar y llwybr at Gaer Drewyn, ym mhen y de-orllewin o Fynyddoedd Llantysilio ger Corwen. Roedd traed pobl a defaid wedi cael



Adeiladu un o'r rampiau i arbed llethrau Moel Fenlli

effaith ac, mewn manau, roedd llwybrau'n tom'n ddwfn i mewn i olion archeolegol. Bellach, gosodwyd rampiau arloesol i orwedd ar wyneb y tir, gan amddiffyn yr archeoleg islaw, heb dylu i'r ddaear, a chynnyg wyneb diogel i gerdded.

Gwnaed gwaith cloddio hefyd. Ym mryngaer Penycloddiau ble'r oedd beddrod yn cael ei threulio gan gerddwyr, mae'r cloddio'n golygu ein bod bron yn hollol sicr ei bod yn deillio o Oes yr Efydd. Roedd unrhyw olion o'r claddu yn y canol wedi cael eu symud yng nghyfnod Fictoria. Er



Golwg o'r awyr ar y gwaith cloddio ar ran o'r gwrthglawdd ym Moel y Gaer, Llanbedr

mwyn gwarchod yr hyn sy'n weddill, cafodd ei gorchuddio trwy ail-greu beddrod, sydd, gobeithio, yn gwarchod a dehongli'r safle.

Ym Moel y Gaer, Llanbedr, bu myfyrwyr o Brifysgol Bangor a Fienna'n gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol o dan arweiniad yr Athro Ray Karl i gloddio croestoriad trwy'r clawdd amddiffynnol lle'r oedd angen atgyweirio oherwydd difrod gan ddefaid. Llwyddodd y cloddio i sefydlu bod gan y clawdd, pan godwyd ef, wyneb o gerrig a dangosodd dyddio radiocarbon ei fod wedi ei adeiladu rhwng 800CC a 500CC. Roedd gwaddod hefyd o gerrig llosg iawn o fewn y clawdd a hynny'n awgrymu defod adeg yr adeiladu.

Ym Moel y Gaer, Llantysilio, roedd arolwg geoffisegol wedi awgrymu bod llawer o olion cytiau crynion, ond mewn llecyn a oedd dan fygythiad gwirioneddol gan gerbydau traws-gwlad anghyfreithlon. Gwnaeth Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys ychydig o waith cloddio gyda

Cerddwch i Benycloddiau a Moel Arthur

Er mwyn annog darllenwyr *Etifeddiaeth y Cymry* i brofi tirwedd y Grug a'r Bryngaerau, dyma atgynhyrchu un o'r teithiau cerdded sydd ar gael o wefan y cynllun: www.heatherandhillforts.co.uk. Mae yno hefyd deithiau cerdded eraill trwy'r wlad hardd o amgylch y bryngaerau.

Penycloddiau yw un o'r safleoedd sydd yn un o deithiau clywedol y Grug a'r Bryngaerau, a gallwch dderbyn honno ar eich ffôn symudol yn y safle (01745 222123 ar gost galwad leol) neu ei chodi i'ch cyfrifiadur neu chwaraewr .mp3 o wefan y Grug a'r Caerau.

Cyn cychwyn

Pellter: 7 milltir (11.2km)

Amser: 4 1/2 awr

Map: OS Explorer 265 Bryniau Clwyd

Cychwyn/Parcio: Maes parcio Llangwyfan (SJ 139668) 1.2 milltir (2km) i'r gogledd-ddwyrain o Llangwyfan ar ffordd Nannerch

Tir: Rhostir grugog, rhiwiau serth

Lluniaeth: Y Kinmel Arms, Waen (01824 790291); y White Horse, Llandymog (01824 790582)


Gall y tywydd newid yn ddiry-budd ar dir uchel. Gwisgwch esgidiau cadarn, Ewch â dillad glaw, cwmpawd, bwyd a diod.

Cofiwch ddilyn y Côd Cefn Gwlad: <http://www.countryside-codewales.org.uk>

Y daith

1. O gomel maes parcio Llangwyfan, dilynwch arwyddion Llwybr Clawdd Offa (LICO). Ewch hyd y trac coedwig ar y dde am ychydig fetrau ac yna ewch i'r dde ar lwybr cul hyd myml y goedwig, gan ddilyn

Llwybr Clawdd Offa ac arwydd y fesen wen. Ewch yn eich blaen i fyny'r llwybr hwn nes cyraedd camfa ar y dde. Croeswch y rhostir agored ac ymlaen hyd Llwybr Clawdd Offa tros fryngaer Penycloddiau. O'r copa, dilynwch y llwybr carreg tua'r gogledd (a'r mast), gan groesi camfa a dilyn



Llwybr y daith

LICO am tua 2/3 o filltir (1km).

2. Lle mae lonydd gwyrdd, di-darmac, yn croesi, ewch ar eich union i'r chwith ac ar drac, gan adael Llwybr Clawdd Offa, ac anwybyddu'r gamfa/gât ar y dde. Ewch trwy gât arall a, lle mae traciau'n croesi, ewch yn syth yn eich blaen. Dilynwch y

trac clir yma am tua 1 1/2 milltir (2.5km), gan fynd trwy chwech gât, cyn cyraedd ffordd. Ewch i'r chwith ami.

3. (Tro byrrach: Ewch 100 llath (100 m) i fyny'r ffordd yna trwch i'r chwith i drac coedwig wrth ochr rhwystr melyn a du. Dilynwch y trac yma i fyny ac yn

gwirfoddolwyr lleol a daethpwyd o hyd i olion dau gwt crwn. Er ein bod yn aros am ganlyniadau radiocarbon ar gyfer y rhain, mae'r canlyniadau'n tanlinellu pwysigrwydd y safle a'r angen i'w warchod. Mae ymgyrch wedi bod i leihau'r gymsu anghyfreithlon.

Nid archeoleg yw unig nod y cynllun. Mae adfer y cynefinoedd grug i gyflwr iach yn allweddol bwysig. Mae'r cynllun amaeth-amgylcheddol, Tir Gofal, yn ysgogi'r ffermwyr sy'n pori defaid ar dirweddau uchel pwysig Moel Famau a Moel y Parc i'w cynnal. Cafodd rhostiroedd Mynyddoedd Llantysilio eu dynodi'n Ardal Gadwraeth Arbennig o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd a threfnwyd cyllid i'w rheoli.

Mae uchafbwyntiau eraill yn ymwneud â phobl. Aethpwyd â grwpiau o blant ysgol yn ôl trwy amser wrth iddyn nhw ddringo Penycloddiau, gan gwrdd ag archeolegwyr, ciper o Oes Fictoria, marchogion canoloesol a gwarchodwr o Oes yr Haearn. Arweiniodd



© Gwasanaethau Gwledig Sir Ddinbych / Y Grug a'r Caerau

Plant ysgol yn cwrdd â chymeriad o Oes yr Haearn ym Mhenycloddiau

ôl i faes parcio Llangwyfan.)

Dilynwch y ffordd tua'r dde am tua 170 llath (150 m) ac, wedi croesi nant, trowch i'r dde ar drac gydag arwydd marchog. Ewch trwy gât a dilyn y llwybr y tu cefn i dŷ ar ei hanner. Ewch yn eich blaen hyd y llwybr, sy'n dilyn llethrau'r bryn, am tua 1 1/4 milltir (2km), gan fynd trwy bedair gât. Ar ôl y bedwaredd, dilynwch y llwybr tua'r dde, gan gadw'r ffens ar y dde. Ewch trwy gât arall ac yna dilyn y llwybr clir hyd ymyl y bryn nes cyrraedd gât olaf i'r ffordd. Ewch i'r chwith a cherdded i fyny'r ffordd i'r maes parcio bychan o dan Foel Arthur.

4. O'r maes parcio, ewch i'r chwith i ailymuno â Llwybr Clawdd Offa lle mae arwydd Coed Llangwyfan. Dilynwch y llwybr o amgylch godre bryngaer Moel Arthur. (Ewch oddi ar y llwybr i'r chwith lle mae'r nod carreg er mwyn dringo i'r fryngaer). Ewch yn eich blaen hyd LICO ar draws y rhostir. Croeswch gamfa i gaeau a cherdded i lawr hyd y Llwybr. Croeswch gamfa arall a pharhau i lawr tua'r ffordd. Croeswch y gamfa yna troi i'r dde ar y ffordd ac yna i'r chwith i faes parcio Llangwyfan.

Penycloddiau

Mae'r gaer anferth yn gorchuddio'r cyfan o ran deheuol y grib ar y copa ac mae'n ymestyn bron 1/2 milltir (800 km). Dim ond un clawdd sydd ble mae'r ddaear yn serth ond lle mae'r codiad tir yn fwy graddol, mae cloddiau ychwanegol



Moel Arthur

Dim ond 4 1/2 erw (1.8ha) yw Moel Arthur ond mae'n olygfa drawiadol gyda'r cloddiau'n amgylchynu copa serth y bryn pigfain. Mae cloddiau dwbl anferth yn amddiffyn y llwybr mwy graddol o'r gogledd, gyda'r fynedfa ar-i-mewn wreiddiol yn y dwyrain.

Cafwyd adroddiadau am lwyfannau tai ar ôl llosgi grug yn 1938 ond dim ond arwyddion prin a gafwyd mewn arolwg archeolegol yn 2006. Er hynny, yn 1849, bu W. Wynne Foulkes, yn ymchwilio i ddau ran o'r gaer, gan ddatgelu waliau sychion a gwrthrychau a oedd, yn ei fam ef, yn 'grochenwaith Rhufeinig coch a garw, blaen saethau callestr a haearn rhydyd'. Os oedd yn gywir, mae hyn yn awgrymu defnydd o'r gaer wedi

yn cryfhau'r amddiffynfeydd. Mae dwy fynedfa i'r gaer – un yn y de a'r llall tua chanol yr ochr ddwyreiniol – a chloddiau troi-mewn o boptu i'r ddwy fel bod amddiffynwyr yn gallu edrych tros unrhyw un a ddeuai at y pyrth.

Mae archwiliadau archeolegol yn 2004 a 2008 wedi nodi mwy na thri a deugain o lwyfannau tai posib. Dychmygwch y gaer yn Oes yr Haearn yn llawn o dai crynion gyda thoeon gwellt a rhagfuriau cadarn o bren ar ben y cloddiau.

Mae gwaith cloddio diweddar ar ran uchaf'r domen o fewn y gaer yn awgrymu'n gryf mai beddrod o Oes yr Efydd yw hi.

Golwg o'r awyr o Benycloddiau o'r de-ddwyrain

© Hawfraint y Goron, Comisiwn Henebion Cymru - NPRN 306898, AP_2006_1015

Oes yr Haearn.

Cafwyd tystiolaeth o Oes yr Efydd hefyd ym Moel Arthur. Mae'n bosib bod cam y cerddwyr yn y canol yn gorwedd ar feddrod. Yn 1962, daeth casgliad o dair bwyell gopr o Oes yr Efydd i'r golwg ar ôl glaw trwm.



Moel Arthur o'r de-ddwyrain

© Mick Sharp Photography

hyn at greu cistiau adnoddau addysgol i'w defnyddio tan athrawon yn y dosbarth neu ar y safle'i hunan.

Bu llawer o deithiau cerdded a sgysiau, a'r rheiny'n arwain at deithiau awdio ar gyfer Penycloddiau a Chaer Drewyn, yn ogystal â llethrau Moel Famau. Gallwch eu dilyn yn y fan a'r lle ar eich ffôn symudol neu eu codi i'ch cyfrifiadur neu chwaraewr .mp3. Bydd gwasanaeth Bluetooth yn cael ei lansio ar wasanaethau bws lleol, gan roi'r cyfle i bobl glywed am yr ardal wrth deithio trwyddi.

At hynny, mae yna feysydd parcio 'Oes yr Haeam', gyda phensaemïaeth y manau parcio a nodweddion eraill yn dynwared y technegau pridd a charreg a ddefnyddiwyd i godi'r bryngaerau.

Mae gwefan yn cefnogi hyn i gyd — www.heatherandhillforts.co.uk — ac mae tudalennau Facebook a Twitter hefyd. Ond peidiwch â dibynnu ar ein gair ni — dewch i weld! 📍

Cyllid a threfn

Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Grug a'r Caerau'n cael rhan helaeth o'i chyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ond gyda symiau arwyddocaol gan bartneriaid eraill, gan gynnwys Cyngorau Sir y Fflint a Dinbych, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw ac Ewrop, mae'r cyfanswm yn £2.2 miliwn. Mae Bwrdd Partneriaeth yn arolygu'r gwaith, gyda thirfeddianwyr, gwleidyddion a chynrychiolwyr o Cadw, y Cyngor Cefn Gwlad, y Gymdeithas Warchod Adar, y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a chyrrff perthnasol eraill.

ygruga'r
caerau




heatherand
hillforts

Mae amcanion Grug a Bryngaerau wedi aros yn gyson ers y dechrau. Mae'n nhw'n cynnwys:

- gwarchod treftadaeth trwy ffermio cynaliadwy;
- ailgysylltu pobl gyda'r ucheldiroedd a chynyddu'u mwynhad ohonyn nhw; a
- chynyddu dealltwriaeth o'r bryngaerau a'r rhostiroedd, a hynny'n sylfaen ar gyfer rheoli, adfer a dehongli.

Ardal cynllun y Grug a'r Caerau



h. Denbighshire County Council. Illustration by Tim Morgan



Argraff arlunydd o Gaer Drewyn yn Oes yr Haeam

Y bryngaerau

Mae'n debyg bod bryngaerau Oes yr Haeam Bryniau Clwyd wedi eu codi tua 2,500 o flynyddoedd yn ôl, o bosib gan lwyth y Decangli, a oedd yn rheoli gogledd-ddwyrain Cymru. Mae'n nhw'n amrywio o anferthedd Penycloddiau, sydd tua 50 erw (20 hectar), i rai llai fel Moel y Gaer, Llantysilio, sydd tua 3 erw (1.25 ha).

Mae cloddiau amddiffynnol cryf o amgylch pob un o'r bryngaerau (gyda sawl haen o amddiffynfeydd yn gwarchod rhannau mwy bregus) ac mae ganddyn nhw byrth cadarn sy'n troi at i mewn. Cafodd llwyfannau ar gyfer cytiau crynion o Oes yr Haeam eu nodi yn y chwech, gyda chymaint â thrigain ac un o lwyfannau posib wedi eu

cofnodi mewn arolwg archeolegol diweddar o Foel Fenli.

Mae peth dadlau o hyd ymhlith archeolegwyr am ddiben bryngaerau yn Oes yr Haeam. Mae bodolaeth llwyfannau ar gyfer tai, storffeydd grawn ac adeiladau domestig eraill yn awgrymu eu bod yn anheddau yn ogystal â chadarnleoedd, ond efallai mai tymhorol oedd hynny neu eu bod yn bennaf yn llefydd marchnad neu ddefod ar gyfer y boblogaeth leol. Beth bynnag eu diben, mae maint y bryngaerau'n dangos pa mor fawr oedd yr ymdrech gymunedol i'w codi.

Mae darganfod ambell wrthrych Rhufeinig, gan gynnwys tua 1,500 o ddarnau arian ym Moel Fenli yn 1816, yn awgrymu bod y bryngaerau'n cael eu defnyddio hyd yn oed wedi dyfodiad y Rhufeiniaid.